E-lawlyfr 1
**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**
Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

## Adnodd 3

# *Defnyddio refferenda yng Nghymru*

## Canllaw i Athrawon

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn ar ddefnyddio refferenda yng Nghymru yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 1: Syniadau Hanfodol i Ddeall Systemau Gwleidyddol***. Mae pob adnodd wedi'i deilwra i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Nid yw'r adnodd yn cwmpasu'r holl faterion yn y fanyleb ac amlinellir isod wybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar y fanyleb sy'n cael sylw yn yr adnodd hwn.

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| **Adnodd 3:**<br>**Defnyddio refferenda yng Nghymru** | **2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU**<br>**– Defnyddio refferenda yng Nghymru a'r DU gan gynnwys enghreifftiau a manteision ac anfanteision.** |

Mae'r adnodd felly yn canolbwyntio yn eithaf penodol ar un rhan o uned 2.2.2. Eir ati i osod y cyd-destun ar gyfer astudio defnyddio refferenda gan gyfeirio at ddefnyddio refferenda yng Nghymru i enghreifftio'r deunydd yn y wybodaeth graidd ac fel enghreifftiau ar gyfer ymarferion yn y llawlyfr gwaith. Y rheswm dros ganolbwyntio ar enghreifftiau Cymreig yw eu bod yn ddefnyddiol er mwyn deall y pwnc a'i bod hi'n debygol bod llai o gyfeirio at yr esiamplau o Gymru mewn adnoddau eraill. Er mwyn gwerthuso defnyddio refferenda tynnir ar ymchwiliadau sydd wedi eu cynnal yn San Steffan yn y cyfnod diweddar, yn enwedig felly ymchwiliad gan Bwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi yn 2010.

Bwriad y canllaw i athrawon yw tynnu sylw at rai materion allweddol yn ymwneud â'r pwnc a chynnig amlinelliad o'r ymarferion sydd yn y llawlyfr gwaith.

## Cyd-destun Refferenda

Diffinnir refferenda gan dynnu sylw at y cysylltiad â'r syniad o ddemocratiaeth uniongyrchol (a drafodir hefyd yn yr Adnodd ar Gyfranogiad). Nodir hefyd y cyd-destun ehangach o ran agweddau mwy negyddol tuag at refferenda oherwydd y defnydd hanesyddol ohonynt a pha mor anghyfarwydd oedd cynnal refferenda yn y DU adeg y refferendwm cyntaf a gynhaliwyd ar draws y wladwriaeth yn 1975. Cyflwynir yr esiampl Gymreig o refferenda lleol o 1961 ymlaen er mwyn diddymu effaith Deddf Cau Tafarnau ar y Sul (Cymru) 1881.

## Sut mae cynnal refferendwm?

Cyflwynir y trefniadau ar gyfer rheoleiddio cynnal refferendwm a sefydlwyd gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (a adnabyddir yn aml yn Saesneg gan y talfyriad PPERA 2000). Noder felly nad oedd y ddeddf hon mewn grym ar gyfer Refferendwm Datganoli i Gymru 1997.

O ran goblygiadau refferenda i sofraniaeth seneddol a drafodir maes o law, un mater y cyfeirir ato yma yw swyddogaeth y Senedd o ran craffu ar ddeddfau unigol sy'n cael eu pasio ar gyfer pob refferendwm unigol. Defnyddir hyn fel esiampl er mwyn dadlau bod gan y Senedd ddylanwad ar y broses o refferendwm ac nad yw'n tanseilio sofraniaeth seneddol.

## Trothwyon

Cyflwynir y modd y gellir defnyddio trothwyon gan ddefnyddio Refferenda Datganoli i'r Alban a Chymru yn 1979 fel esiampl ble mae'r ddyfais hon wedi cael effaith. Yn yr Alban, gallai datganoli fod wedi cael ei sicrhau yn 1979 gan fod 51.6% o'r boblogaeth wedi pleidleisio o blaid heblaw am y ffaith bod gofyn cael cefnogaeth 40% o'r holl etholwyr a taw 32.5% a bleidleisiodd 'ie'.

## Manteision ac Anfanteision Refferenda

Canolbwyntir ar y dadleuon a gynigiwyd gan Bwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi yn eu hymchwiliad 2010 i Refferenda yn y DU fel dadansoddiad effeithiol o nodweddion positif a negyddol (neu'r manteision a'r anfanteision yn yr iaith a ddefnyddir yn y fanyleb). Y bwriad yw bod y tabl yn gallu cael ei ddefnyddio i asesu unrhyw refferendwm. Mae'n bwysig nodi bod y pwyllgor wedi dadlau taw yn achos materion cyfansoddiadol o bwys y dylid defnyddio refferenda.

## Refferenda yng Nghymru

Amlinellir gwybodaeth allweddol am Refferendwm 2011 yng Nghymru fel esiampl o refferendwm a gellir defnyddio'r wybodaeth i gwblhau Cwestiwn 5 yn y llawlyfr gwaith.

## Beth yw'r berthynas rhwng refferenda a Democratiaeth Seneddol?

Mae goblygiadau'r Refferendwm ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi codi cwestiynau sylfaenol am oblygiadau refferenda i sofraniaeth seneddol. O'r herwydd, rhoddir sylw i'r dadleuon o'r ddwy ochr a drafodwyd mewn adroddiad gan Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Gallai disgyblion dynnu ar y deunydd hwn hefyd fel rhan o'r drafodaeth o fanteision ac anfanteision refferenda.

## Ymarferion yn y llawlyfr gwaith

Mae'r ymarferion yn darparu cyfle i'r disgyblion ddatblygu dealltwriaeth bellach o natur refferenda a'r dadleuon ynghylch eu defnyddio. Mae cwestiwn 1 a 2 yn canolbwyntio ar ddiffiniadau ac ar ehangu dealltwriaeth ffeithiol y disgyblion o refferenda sydd wedi eu cynnal yn y DU. Mae cwestiwn 3 yn rhoi cyfle i werthuso dadleuon o ran manteision ac anfanteision defnyddio refferenda.

Mae cwestiwn 4 a 5 yn cyflwyno enghreifftiau o Gymru, refferendwm 1997 a refferendwm 2011. Dyma esiampl o'r ffordd y gallai disgyblion ymateb i gwestiwn 5:

O ystyried y tabl ar fanteision ac anfanteision refferenda, ymysg materion allweddol yn achos y refferendwm i'r myfyrwyr sylwi arnynt o'r wybodaeth hon a thrwy ymchwil pellach mae:

## Manteision

- Fe gynorthwyodd i ddatrys mater gwleidyddol drwy ddangos taw ewyllys pobl Cymru oedd datganoli pwerau pellach i'r Cynulliad
- Cyfrannodd at ategu democratiaeth gynrychioliadol yng Nghymru: roedd Aelodau Cynulliad Cymru ar draws y pleidiau yn cefnogi pleidlais 'ie' ac arweiniodd y canlyniad at ategu trefniadau democrataidd yng Nghymru

## Anfanteision

- Mae cwestiwn mawr ynghylch i ba raddau roedd y refferendwm yn canolbwyntio ar fater cyfansoddiadol o bwys neu ai mater technegol oedd hyn, ac a oedd felly yn briodol cynnal refferendwm

: Eglurir wrth osod cyd-destun y refferendwm taw dyfais dactegol oedd y rheidrwydd i gynnal refferendwm yn y lle cyntaf er mwyn ennyn cefnogaeth y rheiny o fewn y Blaid Lafur oedd yn gwrthwynebu datganoli grymoedd pellach, a'u disgwyliad oedd y byddai cyrraedd sefyllfa lle cynhelid refferendwm yn annhebygol iawn

: Wynebwyd heriau o ran hyrwyddo addysg pleidleiswyr gan ei fod yn fater technegol a chymhleth (sylwer ar y geiriad a ddefnyddiwyd yn y refferendwm). Hefyd, effeithiwyd ar hyrwyddo addysg pleidleiswyr gan i'r ymgyrch yn erbyn wrthod derbyn statws fel prif ymgyrch ac nad oedd modd cynnal ymgyrch swyddogol. Hefyd, ceir awgrym taw cyfnod byr o ymgyrchu fu gan effeithio unwaith eto ar y gallu i hyrwyddo dealltwriaeth.

: Mae'n esiampl lle gwelwyd cyfran isel yn pleidleisio, gan gwestiynu felly faint o ddiddordeb oedd gan bleidleiswyr mewn cymryd rhan yn y refferendwm.

Mae'r cwestiynau eraill yn canolbwyntio ar gyfle i ymchwilio ymhellach i Refferendwm 2016 yng Nghymru ac yn cynnig y mathau o gwestiynau traethawd estynedig y gellid eu gofyn am refferenda.

## ARGYMHELLION DARLLEN PELLACH

### Adnoddau yn Gymraeg

Cynulliad Cenedlaethol (2011) Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011, Papur Ymchwil, Ionawr 2011 – Gosodir y cyd-destun ar gyfer Refferendwm 2011 gan drafod refferendwm 1997 yng Nghymru. https://www.assembly.wales/Research%20Documents/The%20National%20Assembly%20for%20Wales%20Referendum%202011%20-%20Research%20paper-25012011-208354/11-007-Cymraeg.pdf

Golwg 360 (2016) Refferendwm Ewrop: 'Dim digon o amser i wrando ar ddadleuon' https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/227112-refferendwm-ewrop-dim-digon-o-amser

Refferendwm Cymru 2011 – Darn gan Roger Scully yn dadansoddi canlyniad y refferendwm hwnnw http://www.politicscymru.com/cy/cat1/article24/

Lydia Jones & Gwilym Evans (2013) Llyfr UG Llywodraeth a

Gwleidyddiaeth (Aberystwyth: @ebol) – Pennod 2, tudalennau 64-69.

Clip BBC 'Refferendwm datganoli 1979 ac ethol Margaret Thatcher' fel rhan o raglen Canrif y Werin, trafod y canlyniad a'r rhesymau y tu ôl i'r canlyniad. https://www.bbc.co.uk/programmes/p01bb4vx

### Adnoddau yn Saesneg

Y ddau lyfr allweddol ar referenda 1979, 1997 a 2011 yng Nghymru yw:

Taylor, B. and Thomson, K. (goln.) (1999) *Scotland and Wales: Nations Again?* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

Wyn Jones, R., Scully, R. (2012) *Wales Says Yes: Devolution and the 2011 Welsh Referendum* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

**Darnau eraill:**

Cymdeithas Diwygio Etholiadol (2016) *It's Good to Talk: Doing Referendums Differently After the EU Vote* https://www.electoral-reform.org.uk/latest-news-and-research/publications/its-good-to-talk/

Hansard Society Audit of Public Engagement – adroddiadau blynyddol: https://www.hansardsociety.org.uk/projects/research/audit-of-political-engagement

Tŷ'r Cyffredin (1997) *Results of Devolution Referendums (1979 & 1997), Research Paper No97/113* http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/RP97-113

Tŷ'r Cyffredin (2016) Referendums, House of Commons Library Briefing Paper, Number 7692 http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/CBP-7692

Tŷ'r Cyffredin (2017) *Lessons learned from the EU Referendum*, House of Commons Public Administration and Constitutional Affairs Committee, Twelfth report of session 2016-17, HC 496. https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmpubadm/496/496.pdf

Tŷ'r Arglwyddi (2010) *Referendums in the United Kingdom, Select Committee on the Constitution, 12th Report of Session 2009-10* HL, Paper 99. https://publications.parliament.uk/pa/ld200910/ldselect/ldconst/99/99.pdf

Tŷ'r Arglwyddi (2018) *Referendums and Parliamentary Democracy Debate 19 July 2018*, Library Briefing https://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/LLN-2018-0080

Amlinellir llawer o'r dadleuon o ran y defnydd o referenda yn y DU, gan gynnwys yng nghyd-destun y Refferendwm ar ymadael â'r UE.